

## Cristnogion Israel a Phalestina yn galw

Mae grŵp o sefydliadau blaenllaw sy'n gweithio dros gyfiawnder a heddwch ym Mhalestina ac Israel wedi cyhoeddi datganiad ar y cyd yn annog Llywodraeth y DU i herio 'Cynllun Heddwch' yr Unol Daleithiau. Rydym ni, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn cefnogi o leiaf dau o'r sefydliadau, sef Cymorth Cristnogol ac EAPPI. Mae EAPPI yn cefnogi Cristnogion i fyw gyda chymunedau dan warchae ac i fod yn dystion i beth sydd yn digwydd.

Pam maent yn gofyn i'n llywodraeth ni herio 'Cynllun Heddwch' meddych? Oherwydd na cheisiodd yr UDA gynnwys Llywodraeth Palestina yn y drafodaeth. Oherwydd bod y cynllun yn 'rhoi' tiroedd a feddiannwyd mewn rhyfel gan Israel i'r wlad honno yn erbyn cyfraith ryngwladol. Maent am roi dinas Jerwsalem a'r mannau Cristnogol sanctaidd, Dyffryn yr Iorddonen a'r aneddiadau a gipiwyd i lywodraeth Israel. Pa fath fydd gennym os yw unrhyw un sy'n cipio tir gwlad arall yn cael ei gadw?

Mae yna filiynau o ffoaduriaid Palestinaidd am golli eu hawl i

ddychwelyd adref. Mae'n ymddangos fod miloedd mwy am gael eu symud er mwyn ceisio cael gwared o Balestinaidd o diriogaeth Israel.



Cynnigir y posibilrwydd o wladwriaeth i'r Palestinaidd ymhen pedair blynedd OS gwnant dderbyn rhestr hir o ofynion na fyddai unrhyw bobl yn fodlon eu derbyn. Ond os edrychwch ar fap y wlad â gynnigir nid yw yn edrych fel gwlad ond mwy fel clytwaith o ddarnau tir fel y *bantustans* gynt yn Ne Affrica. Mae

llawer o'r darnau tir yn anialwch ac mae'r dŵr bellach yn perthyn i Israel.

Tristwch o'r mwyaf felly oedd clywed adwaith ein llywodraeth ym Mhrydain.

Roedd hyn yn sail da i drafod pellach rhwng yr Israeliaid a'r Palestinaidd meddai'r Prif Weinidog Johnson. Gofynnwn i chi sgwennu ato i fynegi eich siom nad ydym fel gwlad yn cadw at reolau y Cenhedloedd Unedig, ac nad ydym bellach fel petaem yn sefyll dros heddwch a chyfiawnder.

Dywedodd un sylwebydd: Credwch neu beidio: rhoddodd Arlywydd yr Unol Daleithiau yr hawl i bŵer tramor feddiannu tir rhywun arall am dragwyddoldeb! Sut buasem ni yn teimlo pe roddai Gymru i ffwrdd yn yr un modd.

Mae Cristnogion Israel a Phalestina yn galw arnom i ymateb.

**Nia Higginbotham**

Gweler: <https://www.quaker.org.uk/news-and-events/news/quakers-join-call-to-oppose-trump-peace-plan>

## Diwygiad

Yn araf bach, yn ddiarwybod bron, mae'r dystiolaeth Anghydfurfiol yn cilio o'r tir.

### Darlun un – Gwenwyn

Fesul calon, fesul sedd, fesul capel, fesul bro, fesul dyffryn, fesul sir. Mae'r aflwydd a afaelodd ynom a sepsis ei wenwyn yn treiddio drwy wythiennau'n sefydliadau crefyddol, ein bröydd a'n cenedl. Ac y mae'n bröydd yn dioddef. Mae gafael alcohol a chyffuriau ar ein cenedl yn darnio cnawd, yn difetha teuluoedd, yn rheibio'n cymunedau, yn difa bywydau a grëwyd gan Dduw i'w fwynhau.

Ond i lawer ohonom cyn belled nad ydyw'r bobl rheiny sydd yng ngafael y caethiwed yn tarfu arnom ni a'n bywydau cyfforddus, yr ydym, fel cymdeithas, yn barod i guddio'n llygaid.

### Darlun dau – ail-wylltio neu ddiwyllio?

Oddi fewn i eglwys, capel, cymuned a chenedl yr ydym yn clywed udo'r bleiddiaid oddi allan sy'n bygwth. Mae'r ddinas o dan warchae.

Heb weithgarwch bwriadol sy'n diwylltio, buan y llyncir diwylliant gan wylltineb. Pan dderfydd y 'pethau' dim ond man betheuach, ffasiwn bitw'r farchnad, sydd ar ôl. Ac fel canlyniad derfydd cymuned. Peidia gofal. Diffydd y goleuni. Dim ond tywyllwch hunanoldeb dilyffethair sydd ar ôl.

Heb y goleuni ni wyddom mwyach ein bod mewn tywyllwch o gwbl. Heb Oleuni mae'r tywyllwch yn normal. Heb oleuni mae popeth yn trengi.

### Darlun tri – Newid hinsawdd

Fe fu newid yn hinsawdd ysbrydol ein cenedl – fel yng ngweddill Ewrop a'r Amerig – yn ystod yr hanner canrif ddiwethaf. Collodd Moderniaeth ei afael. Collodd Ôl-foderniaeth ei afael. Mae



awrygylch ein byd ysbrydol wedi newid yn llwyr. Nid newid tymor oedd hyn. Newid hinsawdd ydoedd. Y mae'r sychder yn fwy llym a'r oerfel yn brathu ar dir diffaith, heb law, heb gysgod, heb groeso i'r Tragwyddol.

### Canlyniadau?

Gan fod yr heriau wedi crynhoi a'n taro mor sydyn â ninnau heb wybod sut i ymateb iddynt yn yr hinsawdd newydd hwn anodd yw darogan dyfodol llewyrchus i unrhyw enwad na chapel nac eglwys.

(parhad ar dudalen 2)

# Diwygiad

(parhad o dudalen 1)

Gymaint yw'r pwysau sydd arnom, gymaint yw'r tywyllwch sydd ar gerdded, yr oerni sy'n dilyn y newid hinsawdd ysbrydol, goresgyn am gymaint fyth ag y medrwn yw'r hyn sy'n llenwi meddyliau'r rhai sy'n ymgodymu gyda'r heriau uniongyrchol. Ond ar lawr gwlad ni allwn ddychmygu unrhyw fywyd sy'n wahanol i'n profiad crefyddol presennol.



Eglwys y Castell, Wittenberg  
lle hoeliodd Martin Luther ei  
95 Pwnc yn 1517

Am fod ein golwg ni ar y sefydliad, enwad neu gapel sydd o fewn cylch ein cyfrifoldeb, rydym yn sicr na allwn wynebu unrhyw heriau ychwanegol. Nid oes gennym mo'r amser na'r hamdden i archwilio'r sylfaeni na chynllunio sut mae adeiladu i'r dyfodol. Cyn belled â bod ... yn sefyll am gyhyd ag y medrwn ei ddiogelu. Dyna ehangder a maint ein gweledigaeth a'n cyfrifoldeb.

## Diwygiad

Tybed nad oes, yng nghanol hyn oll i gyd, angen am Ddiwygiad Eglwysig newydd? Diwygio. Ail-greu.

Ail-ddychmygu. Ail-osod. Ail-ffurfio. Ail-ddarganfod ffyrdd o drosglwyddo'r ffydd a draddodwyd un waith i'r saint. *Arswyd y byd! Y peth olaf sydd ei angen arnom yw i unrhyw un darfu ar weledigaeth, ar drefniadaeth, ar draddodiad, arferion neu brofiad presennol ein crefydd cyfoes. Efallai eu bod yn amherthnasol, yn aneffeithiol, yn ... ond y gwir yw, dyna'r cwbl a feddwn!*

*Y tu ôl i litwrgi, trefn enwadol, llyffethair arferion a marweidd-dra'n capeli yr ydym wedi llwyddo i roi Duw, yr Arglwydd, Bywyd, mewn boc, mewn lle y medrwn ei reoli. Y peth olaf sydd arnom ei angen yw Diwygio. Byddai hynny'n golygu codi'r caead ar ein gwerthoedd, ein cred, ein cyfeiriad. Byddai'n golygu gofyn i'r Arglwydd, i Fywyd, ein harchwilio. A beth fyddai pen draw hynny?*

Oes y mae i'r gair Diwygiad ei arswyd. Fe ddylai beri arswyd i bob unigolyn, i bob cynulleidfa leol, i bob enwad yn genedlaethol.

## Newid disgwiliad

Mae Diwygiad yn golygu gofyn i'n gilydd ac yn mynnu gerbron y byd nad oes raid i bethau fod fel ag y maent yn awr. Nad oes yn rhaid i dranc enwad neu gapel olygu diwedd ar y dystiolaeth Gristnogol yn ein gwlad. Mae'n golygu ein bod yn gofyn cwestiynau am ein hunain, am Dduw, am ein cyfeiriad. Mae'n golygu cydnabod bod gan Arglwydd yr Arglwyddi, yr Arglwydd Iesu Grist, y goleuni hwnnw na all y tywyllwch mo'i amgyffred na'i ddiffodd, hawl ar hanes ddoe, bywyd heddiw a dyfodol gogoneddus ei eglwys. Mae'n golygu cydnabod drachefn y gellir dinistrio'r deml hon – ond y gall yr Arglwydd godi iddo'i hun Deml newydd mewn tridiau.

Mae diwygiad yn dechrau trwy gydnabod bod tywyllwch ar gerdded, ond bod Arglwydd Bywyd yn drech na'r tywyllwch; yn rymusach nag angau, yn parhau i dywallt ei Ysbryd Glân ar ei eglwys, yn parhau i fod ar waith yn ein byd.

Ond mae cydnabod hyn hefyd yn golygu ymholi am y goleuni a oleuodd llygaid saint yr oesoedd ac a gynhesodd brofiadau'r eglwys ym mhob cyfnod, ac a greodd fawl a chân a bywyd yn ein plith – cân yn ein mamiaith na dderfydd byth, i dragwyddoldeb.

Ganrifoedd yn ôl, pan oedd dinas fawr Rhufain o dan fygythiad a'i hymerodraeth yn crynu o dan fygythiadau allanol cynigiodd Awstin Sant eglurhad am natur y goleuni hwnnw sy'n bywhau ac yn llawenhau calonnau. A mynnodd mai canfod ein llawenydd yn Nuw ei hun yw Bywyd.

“Nid yw llawenhau yn Nuw fel unrhyw bleser sydd i'w ganfod, boed hynny'n fodlonrwydd corfforol neu feddyliol. Nid ydyw chwaith fel pan fydd ffrind yn profi [llawenydd] yng nghwmni ei gyfaill. Ond, os ydym am ddefnyddio unrhyw gymhariaeth, y mae'n debycach i'r llygad sy'n llawenhau mewn goleuni.”

I'r graddau yr ydym wedi chwilio am brofiad, neu drefniadaeth, neu unrhyw

beth arall y tu allan i'r Arglwydd Iesu Grist – dim ots pa mor ddyrchafol, melys neu ddymunol y bo ei fynegiant – yr ydym wedi cefnu ar Oleuni a chaniatáu i'r tywyllwch ein meddiannu. A tybed nad hwnnw yw'r goleuni sy'n parhâu i lewyrchu (ni all dim na neb ei ddiffodd) er ei fod o dan orchudd, o'r golwg bron ynghanol ein trefniadaeth enwadol a chynulleidfaol. Tybed nad ydym wedi anghofio sut i fwynhau, i lawenhau, i brofi, i ganfod gwerth a bodlonrwydd yn Nuw ei hun?



Llun Awstin Sant gan Gerard Zegers

Nid yw bod yn ei bresenoldeb bob amser yn gyfforddus- ond mae o bob amser yn iachusol. Nid yw'n caniatáu i ni aros yr un peth ag yr oeddem yn flaenorol- ond mae yn iachusol. Nid yw'n caniatáu balchder hunanol i sefyll – ond mae'r canfyddiad nad ein teyrnas na'n meddwl na'n trefniadaeth ni fydd yn sefyll i dragwyddoldeb ynddo'i hun yn iachusol. Nid yw Arglwydd Gras yn mynnu ei ffordd ei hun. Ond yn y gwahoddiad grasol i ildio iddo daw'r goleuni iachusol, gorchfygol a chân a moliant newydd a bywyd a grym newydd i enaid, i eglwys i gyd sy'n trengi hebddo.

O'r ymwybyddiaeth hwn y dechreu a Ddiwygiad.

[I'w barhau]

## Gair a gwirionedd

Galwodd Crist ei hun yn wirionedd, nid yn arferiad – gosodiad sydd mor berthnasol ag yn nyddiau Tertwlian pan ffurfiodd ef yr haeriad.

Miroslav Wolf

